





ceca

Working for Infrastructure
Adeiladwaith yw'n Gwaith

Blaenoriaethau at y dyfodol

2016/17



Pwy yw CECA Cymru?

Mae Cymdeithas Contractwyr Peirianeg Sifil (CECA) Cymru yn cynrychioli 60 o fusnesau contractio peirianeg sifil mwyaf a lleiaf Cymru gyda trosiant ariannol blynyddol o dros £1bn ac yn cyflogi dros 6,000 o fobl. Mae'r busnesau yma yn chwarae rhan enfawr yn cefnogi cymunedau ar draws Cymru ac yn gwneud cyfraniad sylweddol i sefyllfa economaidd ein cenedl. Mae ein haelodau hefyd yn gyflenwyr pwysig o gyfleuon hyfforddiant a phrentisiaethau.

Ar lefel mwy sylfaenol ein haelodau ni fydd yn adeiladu y seilwaith sydd angen ar ein cenedl i ffynnu.

Beth yw pwrpas y cynllun yma?

Mae'r cynllun yma yn gosod allan blaenoriaethau CECA Cymru dros y 12 mis nesaf, sut y byddem yn ymestun buddiannau busnesau contractwyr peirianeg sifil a sut y byddem yn cefnogi Cymru mwy llewyrchus drwy seilwaith gwell.

Ed.Evans@cecawales.co.uk
07717 687088 • 029 2081 1116
www.ceca.co.uk  @ceca_wales





Cadeirydd

“Gwerth”, “gweledigaeth” a “strategaeth hir dymor” geiriau sydd yn cael eu lluchio o gwmpas yn eithaf aml mewn cyd-destun gwleidyddol, ond, pan yn son am ddyfodol seilwaith yng Nghymru, mae nhw'n hollol hanfodol. O flaen yr etholiad diweddar i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, galwodd CECA Cymru are y llywodraeth nesaf i wneud seilwaith yn flaenoriaeth ac i wneud ymrwymiad clir i greu gweledigaeth dros seilwaith yng Nghymru. Roedd creu safle Ysgrifennydd Cabinet newydd ar gyfer Economi, Seilwaith a Sgiliau a hefyd Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol i Gymru yn gamau pwysig i'r cyfeiriad iawn.

Er hyn, os ydym am gryfhau ein heconomi yng Nghymru yna mae angen arnom gael seilwaith i'r 21ain Ganrif. I gyflawni hyn mae angen gweledigaeth cryf o'r seilwaith yr ydym ei angen i ddatblygu ein heconomi ac i dyfu ein cymunedau. Mae angen i ni fod yn glir pam yr ydym ei angen a pha werth y daw i ni, fel cenedl, yn y tymor hir. Heb y gweledigaeth hyn bydd ein ymagwedd yn parhau i fod yn fratiog, tameidiog ag yn rhemp gyda dadlau a diffyg penderfyniad. Mae angen i'r genedl gyfan “brynu fewn” i'r weledigaeth yma ond gyda hyn yn ei le medrwn yrru ymlaen gyda datblygu rhaglen o brosiectau “cyd-gysylltiedig”, nodi'r cyfleuon i fuddsoddi ac i wneud yn sicr fod y pobl a'r sgiliau gennym i'w gyflwyno. Mae'r pethau yma i gyd yn haws pan fydd gwelediagaeth o ffyniant economaidd yn ei le a mae angen i hyn fod yn flaenoriaeth i'r comisiwn newydd.

Gyda Llywodraeth Cymru yn cynnig arweiniaeth clir a gyda corff fydd yn cynnig gweledigaeth, ffofws a chyfeiriad strategol i'r sector yng Nghymru, mae hyn yn gyfle euraidd i wneud Cymru yn le mwy llewyrchus i fod.

Peter Crabtree,
Cadeirydd CECA Cymru

Cyfarwyddwr

Fel mae Cadeirydd CECA Cymru wedi datgan credwn fod y ddarpariaeth o seilwaith yn sylfaen hanfodol i ddatblygiad ein heconomi. Ond, er mwyn i hyn ddigwydd yng Nghymru, mae angen:

- Gweledigaeth economaidd a strategaeth clir i Gymru
- Rhaglen hir dymor o brosiectau seilwaith
- Strategaeth buddsoddiad hir dymor i ariannu rhaglen seilwaith
- Strategaeth sgiliau i gefnogi darpariaeth ac i sicrhau fod Cymru yn tyfu ei chronfa talent ei hun

Fel Cyfarwyddwr CECA Cymru fy mlaenoriaethau allweddol i fydd i weithio gyda gwleidyddion a'r rhai sydd yn gwneud penderfyniadau, gyda cleientiaid adeiladu, gyda busnesau a rhanddeiliaid eraill yn y sector ac, wrth gwrs, ein haelodau, i wneud yn sicr fod hyn yn dod yn realiti.

Mae'r rhain yn amseroedd heriol a newidiol ond, i ddyfynu dywediad poplogaidd peldroed Cymru, medrwn gyflawni rhywbeth os ydym “yn gryfach, gyda'n gilydd”.

Ed Evans, Cyfarwyddwr,
CECA Cymru

Amcanion allweddol CECA Cymru dros y 12 mis nesaf

Hyrwyddo gwerth ein seilwaith i'r economi Gymreig a cheisio mwy o fuddsoddiad

- Cefnogi Llywodraeth Cymru i ddatblygu Comisiwn Seilwaith Cenedlathol i Gymru
- Sicrhau fod y sector yn ran allweddol yn y datblygiad o strategaeth buddsoddiant dros seilwaith
- Adrodd ar werth buddsoddiad mewn seilwaith i economi Cymru

Symleiddio y broses caffael a'i wneud yn fwy effeithlon ac effeithiol

- Gweithio gyda cleientiaid adeiladu i sicrhau fod costau bidio i gontractwyr yn cael eu lleihau tra fod y gwerth arian i gleientiaid yn cael ei fanteisio i'r eithaf
- Adrodd ar gostau bidio i gontractwyr a'r diwydiant a'r economi ehangach

Denu gweithlu amrywiol a thalentog i gefnogi'r sector

- Gweithio gyda partneriaid yn y diwydiant a rhanddeiliaid i hyrwyddo gyrfaedd yn y diwydiant adeiladu i bawb
- Cynyddu ymgysylltiad gyda aelodau iau

Sicrhau fod ein gweithlu yn cael ei hyfforddi a'i ddatblygu i'r safonau uchaf

- Datblygu rhaglen hyfforddiant a datblygiad i aelodau CECA Cymru
- Gweithio gyda'r llywodraeth a darparwyr hyfforddiant i ddatblygu safonau a chymwysterau cyson a llwybrau gyrfa i'r sector peirianeg sifil

Sicrhau iechyd, diogelwch a lles ein gweithlu

- Nodi a hyrwyddo ymarferion da i'r diwydiant
- Adrodd ar iechyd, gofal a lles y gweithlu yng Nghymru

Sut medrwn wneud i hyn ddigwydd yng Nghymru?

Bydd newid positif ddim yn digwydd drwy un sefydliad yn unig. I gyflawni newidiadau bydd rhaid i ni weithio'n ddiwyd gydag eraill i yrru y rhain a blaenoriaethau eraill ymlaen. Fe wnawn:

- Gefnogi y llywodraeth, gwleidyddion a phenderfynwyr eraill drwy gynnig sylwadau a safbwyntiau o'r sector a thystiolaeth yn seiliedig ar ffeithiau ar faterion penodol
- Gweithio gyda cleientiaid allweddol i ddarparu fwy o werth drwy rannu gwybodaeth a datblygu ymarferion da
- Gweithio mewn partneriaeth gyda rhanddeiliaid eraill i yrru ymlaen a materion cyffredin

